Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar y Lwfans Cynhaliaeth Addysg gan Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

2 Gorffennaf 2009

Hoffwn groesawu adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar eu hymchwiliad i'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg, ac mae'n bleser gennyf nodi bod yr adroddiad hwn yn dangos bod y cynllun yn cael llawer o gefnogaeth. Hoffwn hefyd gofnodi fy llongyfarchiadau i'r prif ddeisebwr Catrin Anne Davies am ei chyfraniad at yr ymchwiliad a'i defnydd ystyrlon a phwyllog o'n proses ddeisebu. Rwy'n cytuno â datganiad y Pwyllgor ei bod wedi rhoi enghraifft ardderchog o'r ffordd y mae pobl ifanc yn gallu ymgysylltu â'r broses ddemocrataidd.

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn agos iawn at ein cyfeiriad polisi presennol, ac mae'n bleser mawr gennyf fy mod yn gallu eu derbyn. Mae angen ystyried manylion rhai ohonynt ymhellach, fodd bynnag, mewn egwyddor rwy'n cefnogi'n llawn y bwriad sydd y tu ôl iddynt, ac edrychaf ymlaen at weithio tuag at sicrhau'r canlyniadau a fwriedir.

Wrth dderbyn yr argymhellion, mae'n bleser gennyf fy mod yn gallu dangos bod gwaith ar weithredu llawer ohonynt wedi bod yn mynd yn ei flaen ers cryn amser. Mae'r adroddiad hwn, a'r dystiolaeth a gyflwynwyd pan oedd yn cael ei baratoi, wedi darparu gwybodaeth hanfodol i'n helpu gyda'r broses honno. Rwy'n diolch i'r pwyllgor unwaith eto am ei swyddogaeth adeiladol ac am gefnogi Cynllun y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru. Rwyf wedi nodi fy ymatebion manwl i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

1. ein bod yn cydymdeimlo ag amgylchiadau personol y prif ddeisebwr nad yw'n cael cymorth ariannol gan ei rhieni i barhau â'i hastudiaethau, ac rydym yn ei chanmol am ei hymdrechion i newid y system drwy ddeisebu'r Cynulliad Cenedlaethol. Er hyn, gan fod yr adnoddau sydd ar gael yn gyfyngedig, rydym hefyd yn cydnabod y dylid cyfeirio'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg at y myfyrwyr hynny sy'n dod o'r teuluoedd sydd â'r incwm isaf. Nid ydym, gan hynny, yn cefnogi'r cais i'r Lwfans gael ei wasgaru'n denau i gynnwys pawb, a chredwn y dylid ei dargedu'n effeithiol i wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Ymateb : Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae'r holl dystiolaeth o'r cynlluniau peilot cychwynnol yn Lloegr a'r Alban hyd yn hyn, ein gwerthusiad ein hunain, y dystiolaeth a roddwyd gan Fforwm yng nghyfarfod y Pwyllgor a'r gwaith a wnaed gan weinyddiaethau eraill y DU yn dynodi y dylai'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg dargedu'r rheiny y mae ei angen arnynt fwyaf a lle mae'n gallu cael yr effaith fwyaf.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau'r rhaglen bresennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

2. bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dyrannu digon o adnoddau i ymateb i'r cynnydd tebygol yn y galw - o ran nifer y myfyrwyr sy'n gwneud cais am y Lwfans a'r pwysau ychwanegol ar y gyllideb a fydd ar gael.

Ymateb : Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae cynllun y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn cael ei arwain gan alw, a bydd yn darparu cymorth i bob myfyriwr cymwys. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn y gallai fod mwy o alw am y Lwfans Cynhaliaeth Addysg o ganlyniad i'r hinsawdd economaidd bresennol, ac ar hyn o bryd mae'n chwilio am ffyrdd o ragweld unrhyw gynnydd posibl yn nifer y myfyrwyr cymwys ar gyfer y cynllun. Rydym eisoes wedi sicrhau mwy o hyblygrwydd i asesu incwm teuluoedd drwy ddefnyddio lefelau incwm y flwyddyn gyfredol, lle y bo'n briodol, er mwyn ymateb yn y ffordd orau bosibl i unrhyw newid mewn amgylchiadau.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau'r rhaglen.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

3. y dylid ceisio unioni'r anghysonderau yn y broses o gyfrifo incwm teuluoedd i ddileu unrhyw annhegwch yn y system.

Ymateb : Derbyn mewn egwyddor

Nid wyf am weld unrhyw annhegwch yn y broses asesu ac rwyf yn cytuno bod yn rhaid mynd i'r afael ag unrhyw anghysonderau sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio, fel y dywedais wrth y pwyllgor (paragraff 148 y trawsgrifiad), fod gennym system ddoeth a chytbwys ar gyfer mesur incwm teuluoedd. Mae teuluoedd yn ei deall ac mae'n gyfarwydd iddynt, ac mae'n gyson â systemau'r llywodraeth ehangach i benderfynu ar eu cymhwysedd i dderbyn cymorth a manteision eraill. Nid yw'r dull o asesu incwm blynyddol teuluoedd yn unigryw i'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg, ac fe'i hystyrir yn ffordd deg o fesur yr adnoddau ariannol sydd gan bob teulu i ddiwallu ei anghenion.

O ran y meysydd lle mae annhegwch yn bosibl, credaf mai un maes i'w ystyried yw'r effaith ar deuluoedd sydd â mwy nag un plentyn mewn addysg amser llawn. Byddai'n bosibl diystyru cyfran o incwm ar gyfer pob plentyn dibynnol yn y teulu mewn ffordd debyg i'r un a ddefnyddir i gyfrifo cymorth statudol ar gyfer addysg uwch. Bydd gwaith yn cael ei wneud i archwilio opsiynau gwahanol.

Mewn ymateb i'r mater penodol a godwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ynghylch cymorth i deuluoedd sydd â gefeilliaid, rwy'n deall bod y sefyllfa hon wedi'i hystyried yn ystod y

cynlluniau peilot. Roedd y dystiolaeth o'r cynlluniau peilot yn dynodi mai'r teuluoedd sy'n ennill oddeutu £20,000 oedd yn cael y budd mwyaf o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg, ond pan gyflwynwyd cynllun cenedlaethol y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, pennwyd y trothwy uchaf o £30,000 yn fwriadol uwch i gynnwys cymaint o deuluoedd â phosibl ac ystyried amgylchiadau teuluoedd megis gefeilliaid.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau'r rhaglen.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

4. bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal proses werthuso drylwyr er mwyn ei galluogi i ddefnyddio'i phwerau ymyrryd i sicrhau ei bod yn haws i fyfyrwyr lwyddo mewn pynciau penodol.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod angen nodi'n llawn effaith cynllun y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru. Mae proses werthuso cam cyntaf wedi'i chynnal. Byddwn yn sefydlu fframwaith i gasglu a dadansoddi tystiolaeth ansoddol sylfaenol a data meintiol eilaidd er mwyn cynyddu'r canlyniadau cadarnhaol o ran cyfranogiad, cyrhaeddiad a chadw myfyrwyr. Bydd y gwerthusiad yn ystyried a yw'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn gynllun priodol y gellir ei ddefnyddio i dargedu cyrhaeddiad myfyrwyr mewn meysydd pwnc blaenoriaeth.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau'r rhaglen bresennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

5. na fydd unrhyw oedi annerbyniol "yn digwydd eto" gyda thaliadau'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg a hyderwn fod systemau ar gael yn awr i sicrhau na fydd diffygion gweinyddol byth yn peryglu astudiaethau myfyrwyr.

Ymateb : Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Dywedais wrth y pwyllgor na fydd hyn yn digwydd eto. Rwy'n hyderus bod y gwersi eleni wedi'u dysgu. Yng ngoleuni tystiolaeth y llynedd, mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr mewn partneriaeth â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd y camau gofynnol i sicrhau hyn, gan gynnwys:

- monitro'r cynllun, a fydd yn cynnwys dadansoddiad mwy manwl o gamau'r gwaith sy'n sail i'r dangosyddion perfformiad, ac ymrwymiad gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i geisio gwella eu perfformiad lle y bo'n bosibl o flwyddyn i flwyddyn;
- mwy o gapasiti i brosesu ceisiadau gyda 28 o aelodau staff rhan-amser dros dro yn ystod y cyfnod mwyaf prysur rhwng mis Awst a mis Hydref;

- hyrwyddo'r defnydd o dystysgrifau geni fel y dystiolaeth sylfaenol yn hytrach na phasportau;
- cael gwared â'r ffurflen adnabod o'r broses ymgeisio gychwynnol a oedd, yn ôl pob tebyg, yn gyfrifol am gynnydd sylweddol mewn ceisiadau anghyflawn ac yn achosi cryn oedi wrth eu prosesu; ac
- archwilio sampl o geisiadau ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan ddefnyddio tystysgrifau geni fel tystiolaeth sylfaenol.

Rwy'n gobeithio y bydd y newidiadau hyn yn dod â lefel perfformiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn ôl i'r hyn yr oedd o'r blaen ac yn ei gwella ymhellach. Credaf fod dealltwriaeth newydd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'n partneriaid cyflenwi, sef y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, wedi dod i'r amlwg oherwydd yr ymchwiliad hwn, a fydd yn darparu gwasanaeth gwell, sy'n ymateb yn well i'r bobl ifanc sy'n gwneud cais am y cynllun.

Rwyf hefyd yn deall bod y Cyngor Dysgu a Sgiliau, sy'n gyfrifol am gynllun y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn Lloegr, wedi cytuno â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod unrhyw faterion y gallai fod iddynt oblygiadau trawsffiniol yn cael eu trafod yn fwy manwl. Mae'r Cyngor Dysgu a Sgiliau hefyd wedi nodi nad ydynt yn rhagweld unrhyw broblemau gyda'r ffordd y gweithredir cynllun y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn Lloegr ar gyfer 2009/10 ar y cam hwn.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau'r rhaglen bresennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

6. y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal adolygiad mwy trylwyr o effaith y Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar berfformiad addysgol a chyrhaeddiad pobl ifanc Cymru

Ymateb : Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod angen nodi'n llawn effaith cynllun y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru. Rwy'n eich cyfeirio at fy ymateb dan Argymhelliad 4.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau'r rhaglen bresennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

7. y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ganmol y prif ddeisebwr am lobïo'r Cynulliad Cenedlaethol ac rydym yn ei llongyfarch am ddefnyddio'r broses ddeisebu. Credwn fod hon yn enghraifft ardderchog o'r modd y gall pobl ifanc gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Ymateb : Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Fel y nodais yn fy mharagraffau agoriadol yn yr ymateb hwn, rwy'n cytuno'n llwyr â theimladau'r pwyllgor ynglŷn â defnydd Catrin Anne Davies o broses ddeisebu'r Cynulliad a'i pherfformiad dewr a chlodwiw wrth roi ei thystiolaeth gerbron y pwyllgor.

Goblygiadau Ariannol- Dim